

Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb llawn yn cael ei ddatblygu cyn gwneud penderfyniadau terfynol, ac yn llywio'r penderfyniadau hynny. Bydd yr AEDCh yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Goblygiadau Cydraddoldeb i Ganolfan Casnewydd

Data cydraddoldeb allweddol

Gan ystyried bod Canolfan Casnewydd yn defnyddio data a gasglwyd yn 2019, mae'r canlynol yn crynhoi gwybodaeth cydraddoldeb rydym yn ei gwybod am bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau presennol:

A. Oedran

Mae 42% (Casnewydd 20%) o Gwsmeriaid Nofio Cyhoeddus Canolfan Casnewydd dros y 6 mis diwethaf wedi bod o dan 16 oed. Roedd 21% (Casnewydd 18%) o gwsmeriaid dros yr un cyfnod dros 65 oed

B. Rhywedd

Awgryma data Nofio Cwsmeriaid fod 56% o gwsmeriaid yn fenywod (50.8% Benyw) a 44% yn ddynion (49.2% Gwryw). Mae Canolfan Casnewydd hefyd yn cynnal nifer o ddsbarthiadau nofio sydd wedi'u hanelu'n bennaf at fenywod (e.e. Zumba Dŵr)

C. Anabledd

Mae data a ddarparwyd gan Casnewydd Fyw ar y nodwedd warchodedig hon wedi'i gyfyngu i ddata consesiynau yn unig, ac felly nid yw'n benodol i Ganolfan Casnewydd, felly dylid ei gymhwyso drwy ymgynghori â rhanddeiliaid priodol.

D. Hil

Mae agosrwydd Canolfan Casnewydd at y wardiau sydd â'r gyfran uchaf o bobl BAME yn bwysig i'w ystyried (yn benodol Pilgwenlli, Stow Hill, Fictoria, a St Julian).

Er nad ydym wedi gweld data monitro ethnigrwydd ar gyfer holl gwsmeriaid Casnewydd Fyw ar hyn o bryd, mae data consesiynau Casnewydd Fyw (nid Canolfan Casnewydd yn unig) yn awgrymu bod nifer y consesiynau a gynigir i gwsmeriaid sy'n nodi eu bod yn BAME wedi'i orgynrychioli yn y data, sy'n cynnwys 12.5% o gonsesiynau ond dim ond 10.6% o'r boblogaeth.

Mae data cwsmeriaid hefyd yn awgrymu nad yw'r ganolfan hamdden yn cael ei defnyddio'n fawr gan gymunedau BAME, er gwaethaf agosrwydd Canolfan Casnewydd at yr ardaloedd â'r gyfran fwyaf o bobl BAME (Pilgwenlli, St Julian, Fictoria, Stow Hill)

Ystyriaethau Pellach

- Mae'n amlwg bod y wybodaeth ddemograffig sydd ar gael wedi'i chyfyngu gan waith monitro cyfredol sydd ond yn digwydd pan fydd cwsmeriaid yn gwneud cais am gonsesiwn, ac yn ôl natur y consesiwn, sy'n caniatáu defnydd o gyfleusterau ar draws holl safleoedd Casnewydd Fyw. Felly argymhellir ymgynghori'n gadarn â defnyddwyr Canolfan Casnewydd sy'n monitro'r wybodaeth hon.

- Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn cael effaith ar staff Casnewydd Fyw yn y ddarpariaeth bresennol. Bydd angen AEDCh hefyd i ystyried yr effaith ar y staff hyn.
- Mae effaith COVID-19 wedi amlygu anghydraddoldebau strwythurol a chymdeithasol presennol ymhellach, y mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r cynnig hwn, gan gynnwys lefelau iechyd a lles gwaeth ymhlith cymunedau penodol (pobl anabl, pobl hŷn, pobl LHDTG+ a phobl BAME). Dylid manteisio ar gyfleoedd drwy gydol y broses o ddatblygu'r gwaith hwn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial i gynnwys y grwpiau hyn.
- Yn yr un modd, dylai pobl sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol – sy'n aml yn agos at ganol y ddinas – gymryd rhan weithredol drwy gydol y broses er mwyn ystyried cyfleoedd ar gyfer darpariaeth hygyrch

Goblygiadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflawni dyletswydd 'datblygu cynaliadwy', yn seiliedig ar 5 ffordd o weithio. O ran y cynnig i ailddatblygu Canolfan Casnewydd, mae'r goblygiadau datblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

A. Hirdymor ac Atal

Mae Canolfan Casnewydd yn fwy na 35 mlwydd oed ac mae angen buddsoddiad sylweddol arni. Mae'r adeilad a'r cyfleusterau wedi dyddio ac nid ydynt yn bodloni safonau modern, yn enwedig o ran hygyrchedd i bobl anabl.

Byddai cyfleuster hamdden modern yng nghanol y ddinas yn cyfrannu'n fawr at adfywio, gan gefnogi twf economaidd a chreu swyddi a chydbwysu'r cynnig yng nghanol y ddinas.

Bydd defnyddio'r safle tir llwyd arfaethedig yn helpu i gysylltu canol y ddinas ag ardal Glan yr Afon gan ategu datblygiadau sy'n bodoli eisoes fel Campws Dinas y Brifysgol, Theatr Glan yr Afon a Friars Walk. Bydd y cyfleuster hefyd yn gwasanaethu'r economi ymwelwyr gynyddol ac yn cynyddu unedau preswyl canol y ddinas.

Mae'r lleoliad arfaethedig yn ganolog ac yn hygyrch drwy drafndiaeth gyhoeddus a llwybr teithio llesol, sy'n cyfrannu at ansawdd aer gwell a manteision iechyd. Gallai lleoliad canolog fod yn fwy hygyrch i bobl ar incwm is gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddibynnol ar gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus.

Bydd y buddsoddiad mewn cyfleuster o ansawdd uchel i'r Cyngor/Casnewydd Fyw yn cynnal mynediad fforddiadwy i wasanaethau hamdden i bobl ar incwm is, yn enwedig mewn perthynas â nofio sydd, yn y farchnad hamdden breifat, yn aml wedi'i gyfyngu i becynnau aelodaeth drud. Mae cyfleusterau Casnewydd Fyw yn cynnig pecynnau aelodaeth am bris gostyngol ar gyfer grwpiau cydraddoldeb allweddol a phobl ar incwm isel.

Mae tystiolaeth yn dangos bod chwaraeon a hamdden yn dod â manteision iechyd ataliol, ac y gallant wella lles corfforol a meddyliol.

B. Cynnwys Pobl

Mae cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i ddatblygu i sicrhau bod pobl leol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynnig. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr presennol Canolfan Casnewydd, trigolion o gymdogaethau cyfagos a grwpiau cydraddoldeb perthnasol. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb yn llywio'r broses ymgysylltu ac yn cael ei ddatblygu wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

C. Integreiddio

Mae'r cynnig i ddatblygu cyfleuster newydd yng nghanol y ddinas yn adlewyrchu meddylfryd integredig – o ran y manteision iechyd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posibl y gallai datblygiad o'r fath eu cyflawni.

D. Cydweithio

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden mewn cydweithrediad â Casnewydd Fyw sydd, fel ymddiriedolaeth hamdden, yn gweithredu fel menter gymdeithasol sydd â statws elusennol. Byddai cyfleuster newydd yng nghanol y ddinas yn chwarae rhan allweddol ym marchnad hamdden Casnewydd, a byddai'n darparu gwasanaethau e.e. nofio, nad ydynt ar gael yn aml drwy ddarparwyr hamdden preifat fforddiadwy.